OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 135 (Cy. 65)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001,

(b) Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006,

(c) Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006, a

(d) Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015,

er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru/Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales arolygu o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd wedi hynny (rheoliadau 2, 3 a 4).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cywiro rheoliad 3(2)(f) o Reoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"). Mae rheoliad 3(2)(f) o Reoliadau 2015 yn cyfeirio at swyddogaethau cofrestru awdurdodau lleol yn adrannau 20 a 22 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("Mesur 2010"). Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfeiriad hwnnw er mwyn iddo gyfeirio at swyddogaethau cofrestru Gweinidogion Cymru yn adrannau 20 neu 22 o Fesur 2010.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oed yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith

rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 135 (Cy. 65)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016

*Gwnaed* 3 Chwefror *2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* 11 Chwefror *2016*

*Yn dod i rym* *1 Medi 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122(1) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) a pharagraffau 6B(1)(a) ac 13B(2) o Atodlen 26 iddi, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 77(2) a (9), 150 a 152 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**2**), a chan adrannau 28(1), 50(4) ac (8), 55(4), 56(3) a 120(2) o Ddeddf Addysg 2005(**3**), a pharagraff 2(1) o Atodlen 6 iddi, ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 1 Medi 2016.

(**1**) 1998 p. 31. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) 2000 p. 21. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) 2005 p. 18. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001**

**2.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001(**1**), yn lle paragraff (1)(b) rhodder—

"(b) ym mhob achos arall, o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd wedi hynny yn dechrau pan ddaw'r cyfnod blaenorol i ben."

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006**

**3.** Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 6, yn lle paragraff (1)(b) rhodder—

"(b) ym mhob achos arall, o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd wedi hynny yn dechrau pan ddaw'r cyfnod blaenorol i ben."; a

(b) yn rheoliad 14, yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) ym mhob achos arall, o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd wedi hynny yn dechrau pan ddaw'r cyfnod blaenorol i ben."

---

(**1**) O.S. 2001/2501 (Cy. 204) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/783 (Cy. 80)), Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238 (Cy. 243)), Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1436 (Cy. 127)) a Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1212 (Cy. 128)).

(**2**) O.S. 2006/1714 (Cy. 176) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1436 (Cy. 127)) a Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1212 (Cy. 128)).

### Diwygio Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006

**4.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006(**1**), yn lle paragraff (1) rhodder—

> "(1) Ac eithrio pan fo rheoliad 3 yn gymwys, rhaid i'r Prif Arolygydd arolygu pob darparydd gwasanaeth o dan adran 55 o Ddeddf 2005 a phob darparydd perthnasol o dan adran 56 o Ddeddf 2005 o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd wedi hynny yn dechrau pan ddaw'r cyfnod blaenorol i ben."

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015

**5.** Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3, yn lle paragraff (2)(f), rhodder—

> "(f) yn achos addysg feithrin a ddarperir gan berson sydd wedi ei gofrestru gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 20 neu 22 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**3**), y person hwnnw a Gweinidogion Cymru"; a

(b) yn rheoliad 4, yn lle paragraff (1)(b), rhodder—

> "(b) ym mhob achos arall, o leiaf unwaith o fewn cyfnod o saith mlynedd yn dechrau ar 1 Medi 2016 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2023 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod o chwe blynedd wedi hynny yn dechrau pan ddaw'r cyfnod blaenorol i ben."

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
3 Chwefror 2016

---

(**1**) O.S. 2006/3103 (Cy. 286) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1436 (Cy. 127)) a Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1212 (Cy. 128)).

(**2**) O.S. 2015/1599 (Cy. 198).

(**3**) 2010 mccc 1.